**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

2 Mai 2024

Annwyl Huw,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ebrill 2024, gwnaethom drafod yr ohebiaeth a hysbysodd y Pwyllgor fod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, fel yr oedd bryd hynny, wedi rhoi ei chydsyniad i'r Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles osod Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi dilyn datblygiadau yn ymwneud â chyfraith yr UE a ddargedwir, sy'n gyfraith gymathedig erbyn hyn, ers i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) gael ei gyflwyno yn Senedd y DU ym mis Medi 2022.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn am eich sylwadau ar y materion a ganlyn:

- Eich asesiad o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.
- Eich barn am y goblygiadau ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru.
- Byddwch yn ymwybodol o'r gohebu blaenorol â'r cyn-Weinidog Newid Hinsawdd iddi ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru am gadw elfennau o'r Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol a oedd wedi'u cynnwys gan Lywodraeth y DU yn Atodlen 1 ar gyfer eu dirymu'n awtomatig ar 31 Rhagfyr 2023.
  i. A allech ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau rhynglywodraethol ynghylch y rheoliadau hyn?
  ii. A fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf, neu bwerau eraill sydd ar gael i Weinidogion Cymru, i adfer y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol?
  iii. A yw dirymiad y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol wedi cael unrhyw effaith ymarferol?

- Eich barn am y ffaith y daeth egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE i ben ar ddiwedd 2023 a’r goblygiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

- Eich barn am y cynlluniau a nodir gan Lywodraeth y DU yn ei hadroddiad cyntaf ar gyfraith yr UE a ddargedwir i Senedd y DU fel y maent yn ymwneud â meysydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor hwn, yn enwedig ei amserlen, gallu Llywodraeth Cymru i ymateb a goblygiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

    i. A allech gadarnhau pa rôl, os o gwbl, oedd gan Lywodraeth Cymru yn y broses o baratoi’r adroddiad hwn?

- A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o newidiadau ychwanegol sydd ar y gweill o dan y Ddeddf i gyfraith amgylcheddol gymathedig?

- A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir mewn perthynas â'r amgylchedd?

- Unrhyw safbwyntiau neu wybodaeth bellach y byddai'n bwysig, yn eich barn chi, eu rhannu â'r Pwyllgor.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Sarah Murphy AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 30 Mai fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.